# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 18 Rhagfyr 2023 |
| **Teitl:** | Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Codi ymwybyddiaeth am waith a rôl y Fforwm Mynediad Lleol |

**Y rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
Er gwybodaeth

## Cefndir

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gynghori'r Cyngor Sir, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch y ffordd y gellid gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad. Corff statudol yw'r Fforwm sy'n cael ei annog i osod ei agenda ei hun.

Mae Fforymau Mynediad Lleol yn cynrychioli amrywiaeth eang o fuddiannau ac mae'r aelodau yn chwarae rôl bwysig o ran gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad amrywiol ac atyniadol y sir. Penodir aelodau i'r Fforymau am dymor o dair blynedd.

I'r sawl sydd â diddordeb mewn datblygu mynediad cyhoeddus a'r gweithgareddau hamdden sy'n gysylltiedig â hynny, gall y Fforwm fod yn fodd effeithiol o gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion, asiantaethau'r Llywodraeth a mudiadau eraill sydd â chyfrifoldebau neu fuddiannau yn y meysydd hyn.

## Y Sefyllfa Bresennol

Penodir aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol am dair blynedd; penodwyd y Fforwm presennol gan Gyngor Sir Ceredigion, sef yr Awdurdod Penodi, yn 2022 a bydd yr aelodau'n eistedd ar y fforwm tan 2025.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**

Naddo – adroddiad yw hwn ynghylch cynnydd y Fforwm yn unig.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**Argymhelliad:** Er gwybodaeth yn unig; er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y Fforwm Mynediad Lleol a'r Adroddiad Blynyddol a baratowyd.

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
Er gwybodaeth yn unig.

**Enw Cyswllt:** Eifion Jones

**Swydd:** Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus

**Dyddiad yr Adroddiad:** 18 Rhagfyr 2023

**Acronymau:** Fforwm Mynediad Lleol / Local Access Forum (LAF)